



Joint Council for  
Qualifications

**Cynhyrchwyd ar ran: AQA, CCEA, OCR, Pearson a CBAC**

**Hysbysiad i Ganolfannau**

**Cynllun arholiadau wrth gefn/polisi arholiadau**

**(At sylw penaethiaid canolfannau, uwch arweinwyr a swyddogion arholiadau)**

**Rhaid** i bob canolfan fod â chynllun arholiadau wrth gefn/polisi arholiadau ar ffeil i'w archwilio.

Dylai cynllun arholiadau wrth gefn/polisi arholiadau ymdrin â phob agwedd ar weinyddu arholiadau. Bydd yn caniatáu i uwch arweinwyr fod â chynllun wrth gefn cadarn yn ei le a fydd wedyn yn lleihau'r risg i drefn weinyddu'r arholiadau ac unrhyw effaith anffafriol ar ymgeiswyr, pe bai pennaeth y ganolfan, uwch arweinydd/arweinwyr perthnasol, Cydlynnydd AAA, Cydlynnydd ADY, y swyddog arholiadau neu aelod arall o staff sy'n allweddol i'r broses arholiadau yn absennol yn ystod adeg hanfodol o'r gylchred arholiadau.

Dylai canolfannau hefyd ystyried effaith bosibl digwyddiadau eraill fel llifogydd neu seiberymosodiad.

Er mwyn lleihau biwrocratiaeth a baich ar ganolfannau, **ni fydd** fformat neu dempled penodol yn cael ei bennu. Credwn mai uwch arweinwyr mewn ysgolion a cholegau sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar eu cynllun arholiadau wrth gefn/polisi arholiadau eu hunain.

Bydd y dogfennau canlynol yn darparu fframwaith ar gyfer uwch arweinwyr i greu a llunio cynllun/polisi yng ngoleuni eu hamgylchiadau lleol:

<https://www.gov.uk/government/publications/exam-system-contingency-plan-england-wales-and-northern-ireland>

[Paratoi ar gyfer amhariad ar arholiadau - CGC Cyd-gyngor Cymwysterau](#)